PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 14/15 | Ebrill 2/9, 2026 | 50c.

## Eglwys Hope-Siloh

Cafwyd dathliadau difyr unwaith eto eleni i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Ar fore Mawrth y cyntaf roedd hi'n hyfryd cael gwasanaeth gan blant a phobl ifanc y capel yn ein hatgoffa o neges bwysig Dewi Sant, 'Gwnewch y pethau bychain.' Mae'n draddodiad hefyd yn ein capel i gynnal noson gawl. Mae hi'n noson boblogaidd a doedd eleni ddim yn eithriad. Gwelwyd y festri yn orlawn o bobl yn mwynhau cawl a phastai afalau. Unwaith eto, cafwyd adloniant gan gôr Lleisiau Lliw a braf oedd clywed y gynulleidfa'n ymuno mewn ambell gân. Diolch i bawb fu wrthi'n paratoi'r gweithgareddau hyn.

**Heledd Clarke**








Dwedodd Iesu wrthi, "Fi ydy'r atgyfodiad a'r bywyd. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw; a bydd y rhai sy'n fyw ac yn credu ynof fi ddim yn marw go iawn. Wyt ti'n credu hyn?"

Ioan 11: 25 - 26

## Parti Pasg TOTS Saron, Creunant

Cawsom amser bendigedig yn ein parti Pasg TOTS yn Saron, Creunant eleni. Daeth nifer o blant a theuluoedd ynghyd i fwynhau bore llawn hwyl, canu, gemau, a bwyd. Roedd hi'n hyfryd gweld y plant yn chwerthin ac yn mwynhau, a chael cyfle i deuluoedd ddod at ei gilydd mewn awyrgylch cyfeillgar a chroesawgar. Diolch yn fawr i bawb a helpodd i drefnu, paratoi bwyd, ac arwain y gweithgareddau, ac i bawb a ddaeth i ymuno â ni. Edrychwn ymlaen at ein digwyddiad TOTS nesaf yn fuan!

**Rhys Locke**





## Datganiad gan swyddogion eglwys Siloh, Chwilog

# Penodi Swyddog Cymunedol a Chenhadol



Meddai Mr Trefor Jones ar ran eglwys Siloh: ‘Mae’n bleser gennym gyhoeddi ein bod wedi penodi Delyth Wyn Davies i weithredu fel ein Swyddog Cymunedol a Chenhadol, a hynny mewn cydweithrediad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, o dan nawdd cynllun Cefnogi Cyfle yr Undeb. Mae hwn yn benodiad cyffrous a mentrus, ac yn gynllun tair blynedd, er mwyn datblygu a hyrwyddo mentrau cymunedol yn y fro. Ein gobaith yw y bydd cael swyddog mewn lle yn ein galluogi i gyflawni gwaith sy’n pontio bywyd yr eglwys gyda’r gymuned ehangach. Prif nod ac amcan y prosiect yw gosod strwythurau a threfniadau mewn lle i fod o wasanaeth a chefnogaeth, er mwyn dod â phobl o fewn y gymuned yn ardal Chwilog i mewn i fywyd a gweithgarwch yr eglwysi, yn y gobaith y teimlant groeso i ddod yn rhan o fywyd yr eglwys.’

Bydd y cynllun newydd hwn yn rhan o Fenter Gymunedol Chwildro, a disgwyliwn ymlaen i rannu mwy dros yr wythnosau a’r misoedd nesaf.

### Môr o brofiad

Mae Delyth yn dod â chyfoeth o brofiadau a gwybodaeth gyda hi i’r swydd, gan ei bod wedi treulio 40 mlynedd mewn swyddi cenedlaethol ym maes gweinidogaeth a chenhadaeth Gristnogol. Erbyn hyn mae’n disgwyl ymlaen i roi llawer o’r profiadau hynny ar waith mewn cyd-destun eglwys leol. Mae Delyth yn athrawes gymwysedig, ond wedi treulio’r rhan fwyaf o’i gyrfa mewn swyddi Cristnogol cenedlaethol. Tan yn ddiweddar roedd yn rheolwr ar dîm hyfforddi i’r Eglwys Fethodistaidd, yn gweithio ledled Prydain. Treuliodd gyfnodau yn gweithio fel Trefnydd Gwaith Plant i Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngholeg y Bala; fel Cydlynydd Cenhadol i Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yng Nghymru, ac fel Rheolwr Dysgu a Datblygu i’r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Bu hefyd am gyfnod yn weithiwr plant i eglwys Berea Newydd, Bangor ac fel athrawes oed cynradd yn Chwilog. Mae hefyd wedi bod yn weithgar ym maes cefnogi gwaith addoliad, gan fod yn aelod o grŵp Canu’n Llon, a fu’n arloesol mewn cyflwyno caneuon Cristnogol i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru yn yr 80au, a hefyd wedi bod yn olygydd ar ddau gasgliad helaeth o emynau i blant sef *Canu Clod* a *Glas Glas Blaned*. Mae wedi paratoi ac addasu dros 30 o lyfrau Cristnogol i blant, yn cyfieithu taflenni gwaith i adnodd dysgu ac addoli ‘Roots for Churches’, ac yn cyflawni gwaith i Gymdeithas y Beibl a Scripture Union yn rheolaidd. Mae Delyth hefyd yn parhau i fod yn gyfrifol am weinyddu gwefan emynau gobaith.cymru, ac yn gydlynydd gwaith Cytûn yn y gwyliau cenedlaethol.

### Estyn allan

Meddai Delyth: ‘Mae amcanion y cynllun hwn o dan nawdd cynllun Cefnogi Cyfle Undeb yr Annibynwyr yn agos at fy nghalon a theimlaf fod gennyf y gallu i annog a hwyluso’r eglwys i fentro ar ddulliau newydd ac arloesol o genhadu’n lleol. Dros y blynyddoedd rwyf wedi bod yn gweithio gyda gwirfoddolwyr mewn eglwysi lleol gan eu hannog a’u cefnogi a darparu hyfforddiant ac adnoddau priodol. Gwelaf y swydd hon yn gyfle i helpu arweinwyr, aelodau a chyfeillion eglwys Siloh a’r ofalaeth ehangach i archwilio eu galwad a’u gweledigaeth fel cymuned Gristnogol ac i estyn allan a chwrdd ag anghenion pobl yn y gymuned. Dwi’n edrych ymlaen at weithio gyda swyddogion a gwirfoddolwyr yn y gymuned ehangach i wasanaethu’r eglwys a’r gymuned.


# Open Doors

Y mae elusen Open Doors yn gyson yn darparu adnoddau Cymraeg ar ein cyfer. Eleni eto maent wedi cynhyrchu fideo ‘Rhestr Gwylio’r Byd Open Doors 2026: y 10 uchaf’. Er mwyn ei gwylio a’i lawrlwytho ewch i:- https://www.youtube.com/watch?v=FJsRq7U031Y. Hefyd maent newydd gyhoeddi *Rhestr Gwylio’r Byd 2026* yn tynnu ein sylw at y 50 gwlad waethaf am erlid Cristnogion. Mae’r llyfryn lliwgar yn llawn ffeithiau, gwybodaeth, a thestunau gweddi. I archebu hyd at 30 copi yn rhad ac am ddim, ewch i: https://www.opendoorsuk.org/products/product/2026-wwl-top-50-welsh/. Am fwy na 30 copi, ffoniwch Open Doors ar 01993 460 015 neu anfonwch e-bost at Jim Stuart ar jims@opendoorsuk.org.

Os ydych chi wedi defnyddio *Rhestr Gwylio’r Byd* yn y gorffennol ac wedi cael eich bendithio ohono, a wnewch chi gymerwch eiliad i anfon adborth at Open Doors ar contact@opendoorsuk.org gyda ‘Welsh World Watch List’ yn y blwch pwnc? Bydd yn helpu’r tîm yn Lloegr i sylweddoli faint mae’r adnodd yn cael ei werthfawrogi.

OpenDoors

Efallai bod teuluoedd yn eich eglwys sy’n ddwyieithog. Beth am archebu rhai copïau Saesneg hefyd fel y gellir defnyddio’r ddau ochr yn ochr ar gyfer gweddi? Gellir archebu’r copïau Saesneg yma: https://www.opendoorsuk.org/products/product/2026-wwl-top-50/


# WRTH Y LLYW #13

Mis Mawrth eleni (11/3) bu cyfle i ymweld â Chwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion yng nghapel Tyn-y-gwndwn. Gyda'r cyfle, daeth croeso mawr a chynnes. Uwchben y pulpud yno mae carreg goffa'r Parchg B. Carolan Davies. Yr enw a'm trawodd. Yr unig Carolan arall y gwn i amdano yw'r telynor dall o'r ail ganrif ar bymtheg, Turlough O'Carolan; Gwyddel. Oes cysylltiad tybed? Wrth hel meddyliau am y cwestiwn hwnnw cyn dechrau'r cwrdd sylwais ar y gerddoriaeth roedd Helen wrth yr organ yn chwarae ar y pryd: 'Believe Me, If All Those Endearing Young Charms.' Cân boblogaidd a ysgrifennwyd gan y bardd Gwyddelig Thomas Moore, sy'n gosod geiriau newydd i alaw Wyddelig draddodiadol. Wn i ddim os mai cyfres o gyd-ddigwyddiadau mo rhain, ond dw i am fynd gyda'r llif.

*... dysgu'r anthem*
*cyn cael telyn yn y côr.*

### Ymarfer

Dysgu cyn cael telyn. Onid gwaelod pob dawn a chrefft yw ymarfer? Ymarfer, ymarfer eto, ac eto, ymarfer! Roedd Ignacy Jan Paderewski yn bianydd byd-enwog o wlad Pwyl. Dyma ddywedodd Paderewski am bwysigrwydd ymarfer cyson: 'Ped



esgeuluswn ymarfer am wythnos', meddai, 'byddwn i fy hunan yn gweld y gwahaniaeth. Pe bawn yn esgeuluso am bythefnos, gwelai fy ngwraig y gwahaniaeth. Pe bawn yn esgeuluso am dair wythnos, byddai'r gwahaniaeth yn safon fy chwarae yn gwbl eglur i bawb!' Ceir yma ddarlun o ffydd. Dyma beth yw bod yn Gristion – heb ymarfer cyson, nid oes modd cael gwir afael ar ffydd, gobaith a chariad. Dim ond wrth gael gwell gafael ar yr union bethau hyn y lledir ein dynoliaeth a dyfnheir ein perthynas â Duw, ac o'r herwydd, â ni'n hunain: 'ymarfer dy hun i dduwioldeb.' (1 Timotheus 4:7)

Cafwyd enghraifft o ymarfer dda gan Cyfundeb Ceredigion. Pan ddaeth yn amser i goffau'r ffyddloniaid rheini a fu farw, roeddwn wedi disgwyl yr un drefn a welir fel arfer; enwi'r sawl a gollwyd ac yna gair o weddi. Gwnaethpwyd hynny, ond dim ond ar ôl derbyn ac enwi'r aelodau newydd a dderbyniwyd gan eglwysi'r Cyfundeb. Sicrhawyd cydbwysedd rhwng colled ac ennill; mynegwyd fod eglwysi'n lleol yn parhau i dynnu a meithrin aelodau newydd.

### Ffedogau

At y wledd o groeso, daeth gwledd wrth y byrddau: cwmni ffrindiau hen a newydd. Diolch i bawb a fu ynglŷn â'r trefnu fel Cyfundeb ac yn yr eglwys yn Tyn-y-gwndwn. Roedd y sawl a fu'n gweini arnom, bob un yn gwisgo ffedog arbennig: glas tywyll, gydag enw a llun o'r capel arno. Hawliwn anrhydedd gweini: ein credo mewn cymwynas, parod ac ymarferol. Y rheswm pam mae crefydd cymaint ohonom mor dila – mor analluog i roi gwir foddhad inni – yw mai crefydd ddi-waith ydyw, a hynny mewn dyddiau sy'n galw'n daerach nag erioed am grefydd yn ei ffedog. Crefydd yn torchi llewys er mwyn, tros a gydag eraill. Dim ond yr Efengyl a rydd waith i'n dwylo a all iachau ein heneidiau. Geilw ein cyfnod arnom i wyrdroi'r adnod hon o Actau'r Apostolion (6:2): 'A galwodd y deuddeg y lliaws disgyblion atynt, a dywedyd, "Nid da ein bod ni'n gadael gair Duw a gweini wrth fyrddau." ' Heddiw, nawr, yng Nghymru does neb yn rhy bwysig i weini wrth fyrddau. Neb.

**Owain Llŷr Evans**

# Y ffordd orau un

Mae neges y Pasg yn un bwerus iawn ar fwy nac un lefel. Mae iddi arwyddocâd personol, eglwysig, cymdeithasol, cenedlaethol, byd-eang a thragwyddol. Trwyddi mae Duw yn cyhoeddi buddugoliaeth tros farwolaeth, tywyllwch ac anghyfiawnder a hynny trwy waith rhyfeddol Iesu y Meseia. Mae yn neges sydd angen ei chyhoeddi a'i rhannu nawr mewn byd sy'n cael ei rwygo gan ryfel, casineb, trachwant a hiliaeth. Byd lle mae dynoliaeth yn dioddef o salwch difrifol, ac sydd angen clywed am y ffisig i wella'r aflwydd. Mae'r moddion i'w gael yn Iesu Grist.

### Cyflyru

Yn aml o fewn i gymdeithas rydym yn cael ein cyflyru erbyn hyn i feddwl mai casáu, cosbi a dial yw'r ffordd i ddelio gydag unrhyw fath o wrthdaro ac anghydfod. Gwelwn hyn yn y Dwyrain Canol wrth i genhedloedd wrthdaro â'i gilydd. Mor drist yw bod yn dystion i hyn. Gwelwn hyn o fewn ein cymdeithas lle mae pobl yn credu fod ymddwyn yn ymosodol ac anwaraidd yn dderbyniol heb sôn am fod yn gorfforol dreisgar. Problem ysbrydol yw hon yn y bôn ac mae'n rhaid i galonnau pobl gael eu newid.

### Casáu

Credai'r Phariseaid fod teyrnas Dduw yn gofyn iddynt amddiffyn eu hunain yn erbyn pobl roeddent yn eu gweld fel gelynion i'r Arglwydd. O ganlyniad credent mai gweithred cwbl gyfiawn oedd cosbi pobl nad oeddent yn eu tyb hwy yn cadw at air Duw. Ar ben hynny roeddent yn argyhoeddedig pe bae canran ddigon uchel o bobl Israel yn byw bywydau 'cyfiawn' y byddai Duw yn anfon y Meseia i'w plith. Felly, yn eu meddyliau hwy ffordd i hyrwyddo Teyrnas Dduw oedd cosbi a dial ar bobl anufudd. Dangosai'r Phariseaid eu ffyddlondeb i Dduw, trwy gasáu pobl. Dyrchafwyd casineb i fod yn elfen mewn duwioldeb.

### Maddeuant

Ond dangosodd Iesu ffordd gwbl wahanol o feddwl a gweithredu. Croesawai'r Iesu yr union bobl yr oedd y Phariseaid yn eu dieithrio. Gwahoddai 'bechaduriaid' at ei fwrdd gan gynnig parch a maddeuant iddynt. Yn nysgeidiaeth yr Iesu fel hyn y mae Teyrnas Dduw yn gweithredu. Fe aeth mor bell a dweud rhywbeth mor eithafol â 'câr dy elyn.' Roedd Iesu'n dysgu math o gariad nad oedd neb wedi ei ddychmygu sef cariad sydd yn caru gelynion. Roedd y Phariseaid yn casáu pechaduriaid, oherwydd eu bod hwy yn caru Duw. Ond heriodd Iesu'r ffordd yma o feddwl trwy ddysgu ein bod yn dangos maint ein cariad at Dduw trwy garu ein gelynion. Crynhodd Wayne Northey hyn gyda'r geiriau, 'The biblical test case for love of God is love of neighbour; the biblical test case for love of neighbour is love of enemy. Failure to love the enemy is failure to love God.'

A dyma ddangosodd Iesu ar y Pasg hwnnw trwy erchyllterau'r croeshoelio a gogoniant yr atgyfodiad. Y groes yw'r fan lle mae Iesu yn maddau i'w elynion, yn hytrach na'u difa a'u lladd. Yn wir bu farw dros ei elynion er mwyn iddynt hwy, trwy gredu ynddo, gael maddeuant a chymod gyda Duw.

Dyma yw ffordd Teyrnas Nefoedd. Dyma ffordd Iesu Grist wrth ddelio gyda phroblemau ein hoes. Dyma'r moddion mae dynoliaeth ei angen sy'n newid calonnau.

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 2 2026 RHIF 266/7


# Penodi'r Parchg Simeon Baker yn Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd Undeb Bedyddwyr Cymru

Hyfrydwch yw cyhoeddi penodiad y Parchg Simeon Baker fel Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd Undeb Bedyddwyr Cymru (UBC).

Cymeradwywyd y penodiad trwy benderfyniad unfrydol Cyngor Unedig UBC a derbyniwyd cymeradwyaeth eglwysi'r Undeb.

Mae gan Simeon 35 mlynedd o brofiad gweinidogaethol ac arweinyddol mewn cyd-destun Cristnogol, ar lefel leol a chenedlaethol.

Fe'i magwyd yn ardal Drefach Felindre a bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llandysul. Ar ôl gweithio ym maes Cyfrifiaduron a Thechnoleg Gwybodaeth, synhwyrodd Simeon alwad i'r weinidogaeth. Dilynwyd hyn gan gyfnod yn hyfforddi a gweinidogaethu yn Ruislip, Lloegr, cyn iddo ddychwelyd i Gymru i weinidogaethu yn Eglwys y Bedyddwyr Bethel, yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Er 2012 bu'n gwasanaethu'r Undeb fel Cyfarwyddwr Cenhadaeth.



Mae Simeon bellach yn byw yng Nghaerdydd, gyda'i wraig, Janet.

Meddai Mr Bill Davies, Cadeirydd y Panel Penodi, "Yn dilyn proses recriwtio drwyadl a chystadleuol, penderfynwyd argymell enw'r Parchedig Simeon Baker i swydd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru i ddilyn y Parchedig Judith Morris. Mae ganddo brofiad eang a pherthnasol i ymateb i'r heriau a chyfleoedd sydd o'n blaen fel enwad.''

Dywed Simeon: "Anrhydedd a braint yw cael fy mhenodi i'r swyddogaeth hon, ac rwy'n gwerthfawrogi'n ddwfn iawn gefnogaeth ac ymddiriedaeth eglwysi Undeb Bedyddwyr Cymru. Fel Bedyddwyr, wynebwn nifer o heriau, yn ogystal â chyfleoedd arbennig ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth barhaol yng Nghymru. Mae hyn yn ein gwahodd i fod yn gadarn yn ein ffydd, ac yn hy yn ein gweithred."

Wrth amlinellu ei flaenoriaethau, dywedodd Simeon: "Yng nghanol newid, beth bynnag yw ein gweledigaeth, ein strategaeth neu ein strwythur, mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn trysori ein pobl, ac yn bugeilio ein gilydd. Bydd adeiladau, strwythurau a chyllid yn mynd a dod, ond bydd cariad Duw yn parhau wrth i ni aros yn ei gariad. Yng ngeiriau Hebreaid 10:23: 'Gadewch inni ddal yn ddiwyro at gyffes ein gobaith, oherwydd y mae'r hwn a roddodd yr addewid yn ffyddlon'."

# Deddfwriaeth newydd bwysig sy'n berthnasol i waith plant yn yr eglwysi

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at ddeddfwriaeth eilaidd newydd bwysig a fydd yn effeithio ar eglwysi a sefydliadau ffydd ledled Cymru. Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 25 Mawrth, yn diweddaru am y tro cyntaf ers 2010 y rheolau sy'n llywodraethu pwy sydd angen cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. Ac mae ganddo oblygiadau uniongyrchol i *crèches*, grwpiau rhiant a phlentyn bach, ysgolion Sul, clybiau gwyliau, a darpariaeth ieuenctid. Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2027, gyda chyfnod trosiannol yn rhedeg tan 1 Ebrill 2028.

Mae Cytûn wedi bod yn weithgar wrth lunio'r ddeddfwriaeth hon. Ym mis Hydref 2025 cyflwynwyd ymateb ymgynghori ffurfiol gennym i Lywodraeth Cymru ar ran ein henwadau aelod, gan godi pryderon sylweddol ynghylch y baich ar ddarpariaeth eglwysig a arweinir gan wirfoddolwyr. Rydym yn falch bod nifer o'r pryderon hynny wedi'u hadlewyrchu yn y Gorchymyn terfynol – yn fwyaf nodedig, nid yw cynnig a fyddai wedi mynnu cofrestru lle bynnag y byddai darparwr yn cynnig mwy nag un math o weithgaredd wedi'i gynnwys, a fyddai wedi gosod ysgolion Sul, clybiau gwyliau, a dosbarthiadau ffydd ledled Cymru mewn sefyllfa anodd iawn.

Rydym wedi paratoi briff polisi manwl sy'n nodi'r prif newidiadau a'u goblygiadau ar gyfer darpariaeth sy'n seiliedig ar eglwysi. Rydym yn annog yn gryf bob swyddog enwadol ac arweinydd eglwys i'w ddarllen yn ofalus ac i ystyried pa gamau a allai fod eu hangen o fewn eich strwythurau eich hun. Mae'r briff ar gael yn Gymraeg yn https://www.cytun.co.uk/wp-content/uploads/2026/03/Cytun_Briff_Polisi_Gofal_Plant_2026_CY_v2.docx ac yn Saesneg yn https://www.cytun.co.uk/wp-content/uploads/2026/03/Cytun_Policy_Brief_Childcare_2026_EN_v2-1.docx.

Yn olaf, byddem yn ddiolchgar pe gallech geisio barn eich arweinwyr perthnasol – boed yn swyddogion plant, gweithwyr ieuenctid, neu arweinwyr eglwysi lleol – ynghylch sut y gallai'r newid hwn effeithio ar eu gweinidogaeth a'u cenhadaeth ar lawr gwlad. Bydd deall yr effaith wirioneddol ar draws ein henwadau aelod yn helpu Cytûn i gynrychioli eich buddiannau'n effeithiol wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau ategol cyn dyddiad cychwyn mis Ebrill 2027. Rhannwch unrhyw adborth gyda mi'n uniongyrchol ar y cyfeiriad isod.

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*
*iestyn@cytun.cymru*

# O Gredo Nicea i farddoniaeth Waldo ac o'r almanacwyr i ddamcaniaeth cwantwm – i gyd mewn rhifyn newydd o'r *Traethodydd*

Ymdriniaeth T. Robin Chapman ag agwedd newydd ar farddoniaeth Waldo Williams yw prif ysgrif rhifyn Ebrill o'r *Traethodydd*. Amser, lle a chanfyddiad yw'r thema, gyda'r awdur yn dadansoddi'r elfennau hynny yng nghanu'r bardd. Enillodd Waldo ei le ers tro byd fel bardd Cymraeg mwyaf yr ugeinfed ganrif – ydi hi'n gywir honni hynny, ac ystyried cynifer o feirdd mawr eraill a fu'n cydoesi ag ef? Ond mae'r beirniaid, heb sôn am ddarllenwyr cyffredin, yn dal i ddarganfod pethau newydd yn ei waith. Felly hefyd yn yr ysgrif gyfoethog a thra darllenadwy hon.


Y flwyddyn 2025 oedd mil saith canmlwyddiant cyhoeddi Credo Nicea, y credo a sefydlodd farn yr eglwys ar Athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist. Mewn traethiad hynod awgrymog, mae Rosa Hunt, un o golofnwyr cyson *Cenn@d* a gweinidog Eglwys y Tabernacl, Caerdydd, yn gofyn y cwestiwn: 'Beth sydd gan Gredo Nicea i'w ddweud wrth Gymru heddiw?' Nid traethiad sychlyd a damcaniaethol sydd ganddi, ond cyflwyniad bywiog i rai o wirioneddau creiddiol y ffydd a'u perthnasedd hynod i'r byd cyfoes. Sylwedd Darlith Goffa Pennar Davies a Tudur Jones i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yw'r ysgrif hon, a chyhoeddir yr ail ran yn rhifyn Gorffennaf.

Gogledd Cymru, yn fwy na'r de, a gynhyrchodd brif almanacwyr y genedl dair canrif yn ôl. Mewn ysgrif gynhwysfawr mae A. Cynfael Lake yn disgrifio bywyd a gwaith John Harris o Gydweli a Mathew Williams o Ros-maen, Llandeilo, dau ddeheuwr a oleuodd y Cymry trwy eu halmanaciau yn niwedd y ddeunawfed ganrif. Cawn yma gipolwg ar fywydau'r werin ar y pryd, a hynny mewn ffordd ddifyr iawn.

Efallai y bydd y rhan fwyaf ohonom yn gyfarwydd â'r term Saesneg *Quantum Theory* os nad yn deall ei ystyr. Felly, buddiol yw cael gwybod nid yn unig beth yw damcaniaeth cwantwm ond sut y cafodd ei darganfod. 'Helgoland, Göttingen a Threganna a dirgelion y Cwantwm' yw teitl ysgrif Rowland Wynne, sy'n olrhain hanes dau wyddonydd enwog, Werner Heisenberg a Max Born, yn yr anturiaeth hon. Ceir cyswllt Cymreig i'r stori am fod un o'u cyd-weithwyr yn hanu o Dreganna, Caerdydd, ac yntau'n dad i un o sêr byd y ffilmiau. Ond bydd yn rhaid i chi ddarllen yr ysgrif i wybod pwy yn union ydyw!

Ceir dau adolygiad cynhwysfawr yn y rhifyn hwn, y naill gan Dafydd Glyn Jones ar astudiaeth bwysig Dewi Alter, yr ysgolhaig ifanc o Gaerdydd, *Cof Diwylliannol yng Nghymru'r Cyfnod Modern Cynnar*, tra mae Rhianedd Jewell, un arall o'n hysgolheigion ifainc, yn tafoli'r gyfrol *Gweddnewidiadau: Ysgrifau Beirniadol XXXV*, a olygwyd gan Elis Dafydd a Gareth-Evans Jones. Mae'n dda deall bod y gyfres bwysig hon yn parhau, y tro hwn dan ofal ysgolheigion ifainc (eto!), o Brifysgol Bangor.

Yn ôl ein harfer, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan: www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.




## DARLITH FLYNYDDOL MORLAN–PANTYFEDWEN 2026

**'Religion in the 21st-century university: a source of conflict or community?'**


Darlith gan **Dr Mathew Guest**
Athro mewn Cymdeithaseg Crefydd, Prifysgol Durham

**Nos Lun, 27 Ebrill, 2026**
**6.00 o'r gloch**
**MYNEDIAD AM DDIM**

Canolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

CROESO CYNNES
I BAWB

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



Mae grŵp o bobl ifanc a minnau newydd dod yn ôl o Lesotho, lle gwnaethon ni dreulio wythnos anhygoel yng nghwmni ein partner eglwys Sefika yn y brifddinas, Maseru. Yn gyflym iawn daeth hi'n amlwg bod ein criw ni o Gymru mor debyg i bobl eglwys Sefika mewn cymaint o ffyrdd: roedden nhw'n gerddorol iawn ac wrth eu boddau'n canu. Mae pobl ifanc Sefika'n meddwl ac yn poeni am berthnasoedd a gwaith, fel ein pobl ifanc ni. Roedd strwythur a chynnwys eu hoedfa nhw yn debyg iawn i'n hoedfa ni, er bod ei hoedfa nhw'n llawer mwy bwyiog. Ac rydyn ni'n canu'r un emynau – rhif 308 yn eu llyfrau nhw yw 'Gwahoddiad', er enghraifft.

Ond, serch hynny, mae gwahaniaethau amlwg hefyd, ac mae llawer o dlodi yno. Pan wnes i ofyn i'r bobl ifanc o Gymru beth oedd yn anodd iddyn nhw ei weld, yn aml iawn roedden nhw'n sôn am y tlodi, cyflwr gwael y tai, yr ysgolion a'r ysbyty, babanod yn dioddef o ddifyg maeth yn yr ysbyty, diweithdra ymysg pobl ifanc ac yn y blaen. Ond pan ofynnais iddynt beth oedd wedi'u taro nhw fwyaf, beth oedd wedi sefyll allan, yn aml iawn rhywbeth cadarnhaol oedd yr ateb. Yr hyn oedd yn sefyll allan oedd llawenydd a ffydd pobl Lesotho.

Nawr, mewn sawl ffordd mae cyd-destun a diwylliant y Testament Newydd yn agosach at ddiwylliant Lesotho na diwylliant Cymru. Ac yn llythyr Paul at yr eglwys yn Philipi rydym yn gweld disgrifiad o'r math o ffydd a llawenydd a welson ni yn Lesotho:

> "Byddwch yn llawen bob amser am eich bod yn perthyn i'r Arglwydd ... Peidiwch gadael i ddim byd eich poeni chi ... Byddwch chi'n profi'r heddwch perffaith mae Duw'n ei roi ... dw i wedi dysgu bod yn fodlon beth bynnag sy'n digwydd i mi ... Dw i'n gwybod sut mae byw pan dw i'n brin, a sut beth ydy bod ar ben fy nigon. Dw i wedi dysgu'r gyfrinach o fod yn hapus beth bynnag ydy'r sefyllfa – pan mae gen i stumog lawn, a phan dw i'n llwgu, os oes gen i hen ddigon neu os nad oes gen i ddim. Dw i'n gallu wynebu pob sefyllfa am fod y Meseia yn rhoi'r nerth i mi wneud hynny." (Philipiaid 4:4–13; beibl.net)

Dwi'n meddwl bod y llawenydd yma yn deillio o'u ffydd nhw. Oherwydd eu bod nhw wir yn credu bod Duw yn bodoli, bod






Duw yn eu caru nhw, ac y bydd Duw yn edrych ar eu holau nhw mewn ffordd ffyddlon, garedig a graslon, maen nhw wedi dysgu peidio â phryderu cymaint. Yn lle pryder, mae eu calonnau nhw'n llawn llawenydd.

Ond pam mae hynny mor anodd i ni, tybed? Pam mae hi mor anodd i ymddiried cymaint yn Nuw, i adael i'n pryderon gael eu disodli gan lawenydd? Efallai achos bod gennym ormod: gormod o nerth, gormod o arian, gormod o bethau, gormod o freintiau. Mae' n llawer anos dibynnu ar Dduw pan mae'n bosibl i ni ddibynnu ar bethau sy'n teimlo'n fwy sylweddol. Dyma pam mae Iesu'n dweud yn Efengyl Luc: "Gwyn eich byd chwi'r tlodion", neu, yn fersiwn beibl.net: "Dych chi sy'n dlawd wedi'ch bendithio'n fawr, oherwydd mae Duw yn teyrnasu yn eich bywydau." Does dim byd hyfryd o gwbl am fod yn dlawd; mae tlodi'n beth ofnadwy ac anghyfiawn. Ond, drwy ffydd, mae'n gallu creu cyfle i ymddiried yn y pethau na fydd yn siglo neu'n diflannu, sef cariad a gofal Duw. Ac yn nameg yr heuwr, mae Iesu'n sôn am had sy'n syrthio ymhlith y drain ac yn cael ei dagu gan y drain, gan esbonio: "Yna'r rhai syrthiodd i ganol drain ydy'r bobl sy'n clywed y neges, ond mae poeni drwy'r adeg am bethau fel cyfoeth a phleserau yn eu tagu, a dŷn nhw ddim yn aeddfedu." (Luc 8:14; beibl.net)

Mae gan bob un ohonom ddewis: ymddiried mewn pethau fel arian neu ymddiried yn Nuw. Mae'n anodd gwneud y ddau. I bobl dlawd, mae llai o ddewis: mae'n anodd ymddiried mewn arian os nad oes arian gennyt. Felly, efallai ei bod hi'n well dweud bod dewis gwahanol gan bobl dlawd: rhwng ymddiried yn Nuw ac anobaith.

Ni fydd llawer o bobl yng Nghymru'n profi tlodi fel tlodi pobl Lesotho, ac mae hyn yn amlwg yn fendith go iawn. Ond bydd bron pob un ohonom yn wynebu sefyllfaoedd lle rydym ni'n hollol ddi-rym. Er enghraifft, pan fyddwn ni'n colli ein gwaith neu'n cael diagnosis o salwch difrifol. I ni hefyd, wedyn, bydd yna ddewis: y dewis rhwng anobeithio neu ymddiried yn Nuw. Ac addewid y Beibl yw hyn: gwyn eu byd y rhai sy'n dewis ymddiried yn Nuw, achos byddan nhw'n profi llawenydd.

# Eco Eglwysi yn perswadio Cyngor Caerdydd i Gymeradwyo Cytundeb i Roi Diwedd ar Oes Tanwydd Ffosil




Croesawyd cynrychiolwyr Eco Eglwysi Caerdydd i Siambr y Cyngor gan y Cyng. Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor (a chyn-bennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru), y Cyng. Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd y Cyngor), y Cyng. Bethan Proctor (cynigydd), y Cyng. Jackie Jones (eilydd), a'r Cyng. Matt Youde (Plaid Cymru a'r Blaid Werdd). Cafwyd cefnogaeth hefyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Caerdydd.

Nos Iau, 26 Mawrth, fe benderfynodd Cyngor Caerdydd, drwy fwyafrif 53–8, gymeradwyo'r alwad fyd-eang am Gytundeb i Atal Lledaenu'r Defnydd o Danwydd Ffosil, cam arwyddocaol sydd â'r nod o ddileu'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil yn raddol ledled y byd. Dyma Caerdydd felly'n ymuno â chlymblaid ryngwladol a chynyddol o ddinasoedd, sefydliadau, aelodau seneddol a llywodraethau cenedlaethol sy'n cefnogi'r cytundeb. Mae hyn yn cynnwys dinasoedd Llundain, Caeredin a Birmingham, 45 o aelodau seneddol y Deyrnas Unedig, Senedd Ewrop, a 18 o wledydd fel Colombia a Phacistan.

Tanwydd ffosil sy'n bennaf cyfrifol am achosi newid hinsawdd, gan gyfrif am oddeutu 86% o allyriadau carbon deuocsid dros y degawd diwethaf, yn ôl yr IPCC. Mae'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol hefyd wedi datgan bod ehangu cynhyrchu tanwydd ffosil yn anghydnaws â chyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5 °C.

Cyflwynwyd y cynnig gan y Cynghorydd Llafur Bethan Proctor, ac fe'i cefnogwyd gan grwpiau lleol, yn cynnwys Eglwysi Eco Caerdydd a Climate Cymru a'r mudiad cenedlaethol Global Justice Now. Rhwydwaith eciwmenaidd o eglwysi lleol sydd wedi ymrwymo i stiwardiaeth amgylcheddol a chyfiawnder hinsawdd drwy gynllun EcoEglwys Arocha UK yw Eglwysi Eco Caerdydd. Mae'r grŵp yn gweld y cytundeb fel cyfle i Gymru ddangos arweinyddiaeth yn y maes a chyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy a chyfartal.

Trwy ei fabwysiadu, mae Cyngor Caerdydd yn cymeradwyo yn ffurfiol amcanion craidd y Cytundeb i Atal Lledaenu'r Defnydd o Danwydd Ffosil:

- sicrhau **trawsnewid byd-eang** oddi wrth danwydd ffosil, gan sicrhau nad oes unrhyw weithiwr, cymuned na gwlad yn cael eu hepgor
- **atal datblygiadau newydd gyda glo, olew a nwy**
- gweithio tuag at **ddileu cynhyrchu tanwydd ffosil yn raddol ac yn deg**.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan eu hannog i gymeradwyo'r cytundeb fel rhan o'u hymrwymiadau hinsawdd rhyngwladol.

**Dywedodd Eileen Newington, aelod o Eco Eglwysi Caerdydd:**
"Mae'r argyfwng hinsawdd sy'n cael ei achosi gan danwydd ffosil eisoes yn arwain at lifogydd, newidiadau i'r arfordir a thywydd eithafol yng Nghymru, gyda Chaerdydd mewn perygl cynyddol o ganlyniad i fwy o law a chynnydd yn llif yr afonydd. Bydd cynllun byd-eang i roi diwedd ar ddefnyddio tanwydd ffosil yn amddiffyn pobl yma a ledled y byd sydd eisoes yn dioddef yn sgil effeithiau newid hinsawdd a achosir gan weithgaredd dynol, drwy ddwyn llywodraethau ynghyd i fynd i'r afael â'r argyfwng brys hwn."

**Dywedodd Daisy Pearson, Global Justice Now:**
"Mae hyn yn golygu mai Cyngor Caerdydd yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i gymeradwyo'r Cytundeb i Atal Lledaenu'r Defnydd o Danwydd Ffosil. Maent yn ymuno â 193 o ddinasoedd a llywodraethau rhanbarthol yn fyd-eang sy'n cefnogi'r fenter drawsnewidiol hon, dan arweiniad rhai o wledydd y byd sy'n wynebu canlyniadau gwaethaf newid hinsawdd. Tanwydd ffosil sydd wrth wraidd yr argyfwng hinsawdd. Bydd cynllun byd-eang, ar y cyd, yn sicrhau bod y trawsnewid hwn yn cynnwys pob wlad, gweithiwr a chymuned."

**Ychwanegodd y Cynghorydd Bethan Proctor o Gaerdydd:**
"Mae Caerdydd eisoes wedi dangos uchelgais wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd drwy gyflwyno ein fferm solar yn ogystal â datblygu cartrefi carbon isel. Ond mae maint yr argyfwng yn golygu na allwn weithredu ar ein pennau ein hunain. Mae cefnogi'r Cytundeb i Atal Lledaenu'r Defnydd o Danwydd Ffosil yn golygu sefyll dros gyfiawnder hinsawdd byd-eang, gwydnwch lleol, a symud tuag at ddefnyddio ynni glân mewn ffordd deg. Mae dibynnu ar danwydd ffosil yn golygu y gall aelwydydd orfod wynebu cynnydd sydyn neu ansefydlogrwydd o ran prisiau, tra mae ynni glân a gynhyrchir gartref yn dod â swyddi, buddsoddiad a sicrwydd yn y tymor hir.

"Mae'r cynnig hwn yn ailddatgan ein hymrwymiad i adeiladu dyfodol cryfach, tecach a gwyrddach i bawb, ac mae'n haeddu cefnogaeth drawsbleidiol."

**Cyswllt am ragor o wybodaeth:**

- Climate Cymru – Bethan Sayed – bethan@climate.cymru
- Eco Eglwysi Caerdydd – Parch. Gethin Rhys – gethin61@gmail.com

## Y GRAWYS – WYTHNOS 7

# Rhannu gobaith ar gyfer y dyfodol




### Darlleniad

*Mathew 13:1–23*

### Myfyrdod

Byddai Iesu yn aml yn defnyddio damhegion i gysylltu â phobl trwy eu gwahodd i fyfyrio ar wahanol safbwyntiau drwy gyfrwng stori, yn hytrach na cheisio ennill dadleuon. Mae'r darlleniad heddiw yn ein hatgoffa na fydd y straeon a'r negeseuon rydyn ni'n eu rhannu bob amser yn cael eu gwerthfawrogi a'u deall gan bawb, ond y gallant fod yn drawsnewidiol mewn rhai mannau.

Cawn ein galw i fyfyrio ar y cyfleoedd y gallwn eu cael yng nghyd-destun ein heglwys leol i gysylltu â phobl drwy stori, gan symud i ffwrdd o'r dadleuon o blaid ac yn erbyn gwahanol benderfyniadau polisi, i ymgysylltu â straeon y rhai sy'n cael eu heffeithio ganddynt. Fel eglwysi, gallwn seilio'r gwaith hwn mewn gweddi, gan annog pobl i glywed straeon y rhai sy'n wynebu anawsterau a gweddïo dros eu hanghenion.

Rydym hefyd yn cael ein gwahodd i fyfyrio ynghylch sut y gallem rannu ein straeon ein hunain mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r cyfle i gysylltu. Mae rhannu ein hunaniaeth a'n hymdeimlad o gymuned yn fwy boddhaol a chadarnhaol pan fydd hyn yn cael ei werthfawrogi gan eraill, yn hytrach na'i wrthod. Mae gan yr Eglwys gyfle i greu mannau ar gyfer cyfarfod, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, lle gall pobl rannu eu hunaniaeth mewn cyd-destun o sensitifrwydd a pharch at ei gilydd, a dod at ei gilydd o amgylch heriau sy'n cael eu rhannu ganddynt.

Mae'r darlleniad heddiw yn ein hatgoffa y gall y gwaith hwn o rannu ein ffydd fod yn anodd. Mae'n bwysig meddwl ym mhle y gallwn gael cefnogaeth ar ein cyfer ein hunain. Yr heriau a wynebwn drwy beidio â chael atebion hawdd ac sydd angen ymrwymiad tymor hir. Gall ystyried ein sefyllfa bersonol a dangos tosturi tuag atom ein hunain ein helpu i ddangos gras ac empathi tuag at eraill, gan osod y sylfeini ar gyfer estyn allan mewn ffydd at bawb sydd angen derbyn neges o obaith ac iachâd.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Allwch chi feddwl am nofel, drama neu ffilm sydd wedi eich helpu i ddeall profiadau neu safbwyntiau gwahanol i'ch rhai chi? Pa ffactorau wnaeth eich helpu i gysylltu â'r stori?
- Yn eich profiad chi, pa fathau o bynciau sy'n anghyfforddus neu'n achos polareiddio mewn sgwrs ar hyn o bryd? Sut mae'r Eglwys yn ymateb i'r heriau hyn?
- Allwch chi feddwl am unrhyw enghreifftiau o arddangos hunaniaeth sy'n eich gwneud chi'n anghyfforddus? Beth fyddai angen ei newid er mwyn i chi brofi hyn fel rhywbeth cadarnhaol?

### Gweithredu

- Allech chi bartneru â rhywrai ym maes y celfyddydau i gynnal digwyddiad i adrodd straeon ynghylch materion hunaniaeth a pherthyn yn eich cymuned?
- Allech chi hwyluso deialog am heriau cenhadaeth a bod yn ddisgybl yn y cyd-destun presennol?
- Nodwch gamau hunan-ofal y gallech eu cymryd i'ch cefnogi eich hun yr wythnos hon.

### Gweddi

Duw cariadus,
Mewn byd lle mae angen straeon o obaith a chysylltiad ar bobl
helpa ni i fod yn ddyfeisgar ac yn greadigol yn ein hymdrechion
i rannu ein ffydd a'r gobaith a gawn ynot ti.
Rho ynom y dewrder i rannu ein straeon ein hunain
yn eirwir ac yn barchus
ac i wrando ar eraill
â chalonnau agored
gan ganiatáu i obaith ffynnu a thyfu.

Amen.

S4C

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 5 Ebrill, am 6:45yh – Sul y Pasg**

Bydd Nia Roberts yng Nghwm Tawe i arwain dathliadau'r Pasg. Cawn fwynhau awr o ganu mawl ysbrydoledig o Gapel y Nant, Clydach, perfformiadau cerddorol a darlleniadau o'r Beibl sy'n dod â stori'r Pasg yn fyw. Yn cymryd rhan bydd Angharad Brinn, Delwyn Siôn a Nia Price. A 25 mlynedd ers cyfansoddi'r gwaith, cawn fwynhau un o uchafbwyntiau 'Gorffennwyd', cantata fodern gan y cerddor Eilir Owen Griffiths, a fydd yn arwain perfformiad gan griw o'i gantorion ei hun, Côr Ifor Bach.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 5 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp – Sul y Pasg**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Elwyn Richards, Bangor

*Oedfa Radio Cymru*
**Dydd Gwener, 3 Ebrill, am 12:30yp – Dydd Gwener y Groglith**


Oedfa Gwener y Groglith o Gaernarfon, dan arweiniad Mererid Mair, Jenny Knott a Rhys Llwyd. Trafodir rhai o deimladau'r disgyblion a Christnogion ym mhob oes wrth y groes: siom, euogrwydd a galar. Ond nid ydynt heb obaith.

**Sul, 5 Ebrill, am 12:00yp –Sul y Pasg**

Oedfa Sul y Pasg o Gaernarfon dan arweiniad Anna Jane Evans, Dylan Williams a Hannah Smethurst. Bydd yn trafod yr Atgyfodiad, profiad Mair o ddagrau'n cael eu sychu a phrofiad Pedr ac Ioan o wacter y bedd – man i gyfarfod â'u hunain a chariad Duw.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 17 – Ymson Merch Jefftha

Ro'n i'n gwybod y byddai fy nhad wedi hoffi cael mab, ond fi oedd ei unig blentyn; felly, fe'm derbyniodd. Roedd perthynas dda rhyngom: ro'n i'n ei ddeall ac yn gwybod am y cysgodion oedd yn llechu'r tu mewn iddo. Bu raid iddo adael ei deulu, a hynny oherwydd nad oedd yn adnabod ei fam. Pwysai'r boen o gael ei wrthod ar ei ysgwyddau'n drwm, ond llwyddodd i wneud enw iddo'i hun, serch hynny – cymaint felly nes i henaduriaid Gilea ddod ato ac awgrymu y gallai fod yn arweinydd. Y diwrnod hwnnw, gwelais ryw ffyrnigrwydd yn fflachio yn ei lygaid. Peth peryglus yw dyheu am rym ac fe all wneud person yn fyrbwyll.

Fel arweinydd, roedd yn rhaid iddo wynebu'r Ammoniaid ac roedd ofn arno. Dyna pryd yr aeth i siarad â Duw. Ro'n i'n ffyddiog y byddai Duw yn edrych ar ei ôl ac ar ein hôl ni i gyd. Bûm yn poeni, wrth gwrs, tra oedd i ffwrdd, ond pan glywais mai ein pobl ni oedd wedi ennill y dydd, ro'n i ar ben y byd. Roedd fy nhad yn bwysig ac yn llwyddiannus; llanwodd fy nghalon â balchder. Clywais ei fod ar ei ffordd adre a gwnes yn siŵr fy mod yn barod i'w groesawu a'i gyfarch. Fel ei ferch, roedd gen i'r hawl i'w longyfarch a dawnsio dawns â thamborîn!

Gwelais ef yn dynesu ac es allan o'r tŷ. Roedd y llwch yn codi o gwmpas ei draed ac roedd ei wedd yn drwm gan flinder. Wrth glywed rhythm f'offeryn taro, cododd ei lygaid tuag ataf ac yn hytrach na gwên, gwelais ddychryn. Fedrwn i ddim credu'r peth. Fe ddylai fod yn hapus i'm gweld. Ond, yn lle hynny, edrychodd arnaf fel petawn yn elyn iddo!

Yna, collodd arno'i hun a dechreuodd rwygo'i ddilad. Soniodd am ryw addewid yr oedd wedi'i wneud i Dduw. Roedd cytundeb wedi digwydd ym meddwl fy nhad, a'r gytundeb honno'n sanctaidd yn ei olwg. Ni allai'r geiriau a ynganwyd ganddo fyth gael eu tynnu'n ôl. Am y tro cyntaf erioed, fe deimlais nad oeddwn yn perthyn iddo, nad oeddwn yn bwysig, nad oeddwn yn cyfri.

Yn sydyn, sylweddolais arwyddocâd hyn. Oherwydd ei fod wedi ennill y frwydr, a fyddwn i nawr yn colli'r hawl i fyw? Ar sail rhyw addewid na wyddwn i ddim amdano, doedd dim ar ôl i mi? Sut allai hyn fod yn digwydd? Beth ddylwn i ei wneud? Doedd dim posib dianc, gan nad oedd gen i unlle i fynd iddo. Pwy fyddai'n gymorth i mi? Oedd y Duw a dderbyniodd yr addewid yn Dduw i mi hefyd?

Sefais am funud cyn dweud dim. Yna'n araf, penderfynais nad oedd dim dewis ond derbyn fy ffawd. Efallai y dylwn fod wedi brwydro, amddiffyn fy hun, gwrthod derbyn. Ond doedd gan ferch ifanc fel fi mo'r grym i allu newid dim.

Felly gofynnais am un peth, sef amser. Roedd angen amser arna i i ddod i delerau â'r holl beth. Ro'n i eisiau galaru am y pethau na wyddwn amdanynt: cofleidio, priodi, caru, magu plant. Ond, yn fwy na hynny hefyd – dyddiau da, blynyddoedd o brofiadau, bendithion aeddfedu a heneiddio.

Fe ges i fynd i'r bryniau am ddeufis gyda fy ffrindiau agosaf. Wylais ddagrau. Gwaeddais ar y sêr a'r lloer, yr haul a'r cymylau. Teimlais gri'r gwynt ar fy ngruddiau a llif yr afon ar fy nghroen. Disgwyliais am angel. Chwiliais am oleuni. Ni ddaeth unrhyw lewyrch i'm llwybr.

Daeth y deufis i ben. Dychwelais. A dyna lle daw'r ymson hon hefyd i ben. Fyddwn i ddim eisiau ichi wybod y manylion: rhy drwm ydynt i'w cario.

### Holi

- Does dim yn y stori'n dweud fod Duw wedi derbyn addewid Jefftha. Ai anaeddfedrwydd, diffyg doethineb, gwendid ysbrydol, neu greulondeb tad a geir yn yr hanes?
- Pa mor bwysig yw enw? Ydyn ni'n tueddu i anghofio stori pobl os na wyddom eu henwau?
- Oes yna sefyllfaoedd yn ein cyfnod ni lle mae pobl yn cyfiawnhau penderfyniadau dinistriol yn enw ffydd?
- Ai dewr neu wirion oedd merch Jefftha? Pam dderbyniodd hi ei ffawd (e.e. oherwydd cred, diwylliant, grym patriarchaidd etc)?
- Beth, yn eich tyb chi, fyddai ymateb Iesu Grist i'r stori hon?

### Gweddi

Rho inni oleuni meddwl.
Maddau inni am beidio â sefyll yn gadarn yn erbyn pob anghyfiawnder.
Rho inni ddewrder i wneud yr hyn sydd o fewn ein cyrraedd i fod o gymorth i eraill.
Maddau inni am osgoi deall hanfodion ein ffydd.
Rho inni'r dyhead i ddysgu.
Maddau inni pob ffolineb.
Rho inni ddoethineb. Amen.

*Sian Meinir*

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 12 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Ganu Capel Seion, Dre-fach, Llanelli, dan arweiniad Helen Gibbon

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 12 Ebrill – dim oedfa**

# Gorchfygwr angau
# Myfyrdod y Pasg 2026

Ar drothwy'r Pasg gadewch i ni ystyried Ei atgyfodiad. Yng ngoleuni ymchwil diweddar gan Bill Hybels gwelir bod pedwar arweinydd yn sefyll allan ym myd crefydd: Confucius, Bwdha, Mohammed a Iesu. Bu farw Confucius, Bwdha a Mohammed. Mae'r tri yma yn eu beddau ac mae modd ymweld â'u beddau. Yr arwydd ar ddrysau eu beddau yw: 'Meddianedig' (Occupied).



### Gwag

Medrwn ymweld â bedd y tu allan i Jerwsalem lle gosodwyd corff Iesu i orwedd am dri diwrnod wedi iddo gael ei groeshoelio. Mae miliynau o bobl wedi ymweld â'r bedd a minnau yn eu plith. Yr ydym yn ymweld â'r bedd nid i anrhydeddu dyn a fu farw ond i sefyll yn dawel mewn parchedig ofn, rhyfeddod a syndod, wyneb yn wyneb â'r ffaith fod bedd y Gwaredwr yn wag: 'Heb ei feddiannu' (Not Occupied). Yn wahanol i Confucius, Bwdha a Mohammed dywedodd Iesu, 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth' (Ioan 11:25,26). Profwyd y gosodiad hwn pan gyfododd Duw ei Fab o feirw ar fore'r trydydd dydd. Ymddangosodd y Crist byw yn ei gorff atgyfodedig i'w ddisgyblion, i aelodau o'i deulu, i ffrindiau ac i bum cant o bobl gyda'i gilydd. Bu'n bwyta gyda hwy, yn siarad gyda hwy, yn eu dysgu ac yn rhannu cymdeithas â hwy am ddeugain diwrnod hyd ei esgyniad. Mae hynny yn ei osod ar wahân i bob arweinydd crefyddol sydd wedi byw erioed ac a fydd fyw byth. Oherwydd y ffaith hon mae cynulleidfaoedd bychain ac anferth ar draws y byd yn dod ynghyd bob Sul – i ddathlu'r atgyfodiad.

### Symud y maen

Ceir argraffiad newydd eto o lyfr Frank Morison, *Who Moved the Stone?* Mae'r llyfr hwnnw yn glasur. Bwriad Morison pan aeth ati i ysgrifennu ei lyfr oedd profi unwaith ac am byth mai stori ffug oedd stori'r bedd gwag. Ond wedi cyflawni ei holl waith ymchwil ac wrth ysgrifennu ei lyfr daeth i gydnabod heb unrhyw amheuaeth bod yr Arglwydd Iesu wedi atgyfodi o feirw – Duw symudodd y maen o enau'r bedd. Mae Morison yn terfynu ei lyfr trwy ddyfynnu cymal o Gredo'r Apostolion: 'Y trydydd dydd y cyfododd o feirw.' Digwyddodd rhywbeth syfrdanol – rhywbeth newidiodd y byd ar fore'r Pasg.

### Ble mae ef yn awr?

Mae ef gyda ni drwy'r Ysbryd Glân ac mae'n eiriol trosom ar ddeheulaw Duw.

Esgyn a wnaeth i entrych nef
i eiriol dros y gwan;
fe sugna f'enaid innau'n lân
i'w fynwes yn y man.

Mae'n ein cynrychioli ni gerbron Duw. Mae'r Duw sanctaidd yn ein gweld ni wedi ein gwisgo â glendid Iesu Grist. Cofleidiodd y Gwaredwr y pechadur ar y groes ac mae'r Gwaredwr hwnnw sydd yn eiriol trosom yn dal i gofleidio'r pechadur gerbron Duw – yn eiriol arno i weld y pechadur yn lân heb greithiau ei bechod am ei fod ef wedi cymryd ei bechod arno'i hun ar y groes. Pa bechadur? Chi a fi, bob yn un ac yn un, dim ond i ni gydnabod ein hangen am Iesu fel ein Gwaredwr a derbyn ei aberth drosom ar y groes. Wrth droed y groes mae'r pechadur yn cyfarfod â Thywysog Tangnefedd ac yn cael ei nerthu ganddo i fod yn Dangnefeddwr.

### Duw'r heddwch

Mae dinistrwyr heddwch yn bla yn ein byd – offerynnau ydynt yn llaw'r diafol. Sut mae atal dinistrwyr heddwch rhag gwneud eu gwaethaf? I uno dynion, sydd â muriau uchel wedi eu codi rhyngddynt, rhaid newid calonnau'r dynion hynny. Ni all gwleidyddiaeth, nac addysg well wneud hynny. Mae angen grym Efengyl yr Arglwydd Iesu Grist i newid calonnau dynion. Dim ond Iesu Grist all greu perthynas gywir iach rhwng dyn a'i gyd-ddyn. Dim ond pan yw pobl yn dod i berthynas gywir â'r Arglwydd Iesu Grist maent yn dod i mewn i berthynas gywir â'i gilydd. Yna fe hyrwyddant heddwch, cymod a chyfiawnder. Duw yr heddwch yw Duw, a gwneuthurwyr tangnefedd yw ei blant. Y mae i'r crediniwr gymundeb tragwyddol  â'r Gwaredwr.

Ac yna caf fod gydag ef
pan êl y byd ar dân,
ac edrych yn ei hyfryd wedd,
gan' harddach nag o'r blaen.

Mae'r Arglwydd Iesu Grist ben ac ysgwydd yn uwch na phawb arall. Ef yw'r unig un sy'n diwallu ein newyn am berthynas â'n Creawdwr. Ynddo ef y mae'r cariad a'r maddeuant sydd ei angen ar bob pechadur. Ef yw'r un sy'n ein rhyddhau o falchder a hunanoldeb ac sy'n ein galluogi i fwynhau bywyd cyflawn sy'n llawn pwrpas ac ystyr. Ef sy'n ein galluogi i weld Duw a'i garu a charu'n cyd-ddyn yn ei nerth. Pwy arall sy'n mynd i faddau'n pechodau? Pwy arall sy'n mynd i'n cyflwyno ni'n lân gerbron Duw? Pwy sy'n arweinydd diogel i ni? Bu fyw bywyd dibechod, bu farw ar y groes dros ein pechodau. Atgyfododd Duw ef ar fore'r trydydd dydd ac mae'n eiriol trosom ar ei ddeheulaw.

Ymhlith a fu, neu ynteu ddaw,
'does debyg iddo fe.

**Andrew Lenny**.
(Allan o gylchlythyr Seion Aberystwyth.)

## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**
**Cyfarfodydd Blynyddol 2026**

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg
Gwesty'r Towers, Abertawe
24–26 Mehefin, 2026

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w cyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 8 Mai fan bellaf. Bydd angen llofnod cynigydd ac eilydd ar bob penderfyniad.

*Barn Annibynnol*

# Polau piniwn ac ati

Mae polau piniwn neu arolygon barn yn cael eu defnyddio'n helaeth iawn y dyddiau hyn i ddweud wrthym beth mae pobl yn ei feddwl am etholiadau, cynnyrch newydd, materion cymdeithasol, ac yn y blaen. Maent yn rhemp ar hyn o bryd, yn enwedig gan fod etholiad mor bwysig ar y gorwel yma yng Nghymru. Ydych chi'n eu dilyn tybed? Mwy priodol efallai fyddai gofyn a oes gennych chi unrhyw gred ynddynt?

Does dim dwywaith fod polau piniwn ac arolygon barn yn gallu bob yn offerynnau defnyddiol. Maent ar waith yn helaeth mewn addysg bellach ac uwch, er enghraifft, i sicrhau bod myfyrwyr yn cymryd rhan ac yn cydadweithio'n fwy yn yr ystafell ddosbarth. Cânt eu defnyddio'n gyson i fesur barn y cyhoedd ynghylch rhyw bwnc penodol neu gyfres o bynciau. Rhaid cofio, fodd bynnag, nad ydynt yn berffaith. Ni all yr un pôl piniwn ddarogan y dyfodol.

### Samplu

Un o'r prif resymau pam na all arolygon adlewyrchu barn y cyhoedd yn gywir yw rhagfarn samplu. Mae cyflawni sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth yn heriol. Gellir hefyd ddylanwadu ar arolygon yn hawdd trwy fframio cwestiynau neu ddewis ymatebwyr. Trwy lunio geiriau cwestiwn yn ofalus, gall polwyr ddylanwadu ar atebion yr ymatebwyr, gan arwain at ganlyniadau rhagfarnllyd. A gall amseru a chyd-destun arolygon hefyd gael effaith sylweddol ar eu dilysrwydd. Mae barn pobl yn gyfnewidiol ac yn gallu newid mewn ymateb i wybodaeth newydd, digwyddiadau, neu newidiadau yn y maes gwleidyddol. Yn ogystal, gellir dehongli canlyniadau arolygon a'u cyflwyno mewn ffyrdd sy'n gwasanaethu buddiannau'r corff sy'n comisiynu'r arolwg.

Er bod polau piniwn yn cael eu defnyddio'n eang i fesur barn y cyhoedd, dylid ymdrin â'u cywirdeb a'u dibynadwyedd yn ofalus. Gall dibynnu'n unig ar bolau piniwn i ddeall teimladau'r cyhoedd arwain at benderfyniadau camarweiniol a chanfyddiadau anghywir

### Adfywiad Tawel

Cymerer arolygiadau sy'n ymdrin ag adfywiad Cristnogol, er enghraifft. Mae dibynadwyedd yr arolygon hyn yn fater o drafodaeth, gyda rhai astudiaethau diweddar wedi nodi adfywiad Cristnogol ymysg pobl ifanc yn y Deyrnas Unedig tra bo eraill yn rhybuddio yn erbyn honiadau o'r fath. Yn 2025 cafwyd adroddiadau yn y cyfryngau torfol am arolygon a gomisiynwyd gan Gymdeithas y Beibl ar gyfer adroddiad o'r enw *Yr Adfywiad Tawel*. Dangosodd yr arolygon hyn fod cyfran yr oedolion 18 i 34 mlwydd oed yng Nghymru ac yn Lloegr sy'n Gristnogion ac yn mynd i eglwys yn rheolaidd wedi mwy na threblu rhwng 2018 a 2024. Arolygon optio i mewn (ar-lein) oedd y rhain.

### Optio mewn

Seiat doethion di-blaid Americanaidd yw Canolfan Ymchwil Pew wedi'i lleoli yn Washington DC. Mae'n darparu gwybodaeth am faterion cymdeithasol, barn gyhoeddus, a thueddiadau demograffig sy'n llunio'r Unol Daleithiau a'r byd. Mae dadansoddiad y Ganolfan yn tynnu sylw at dueddiadau posibl mewn arolygon optio i mewn, sef nad ydynt, efallai, yn cynrychioli'r boblogaeth gyffredinol yn gywir. Mae'r Ganolfan yn dadlau mai samplu ar hap yw'r safon aur mewn ymchwil gymdeithasol ac nad yw'r dystiolaeth ar gyfer adfywiad Cristnogol ymhlith pobl ifanc yn glir. Gan fod adroddiad *Yr Adfywiad Tawel* yn seiliedig ar arolygon optio i mewn, efallai nad yw'n adlewyrchu'r gwir ddarlun o weithgarwch crefyddol.

Mae'r ddadl yn parhau, gyda'r ddwy ochr yn cyflwyno data sy'n awgrymu symudiad yn ymddygiad crefyddol ymysg cenedlaethau iau. Pa ochr sy'n nes ati, tybed?

### Neges y Pasg

A thybed hefyd beth fydd gan y polau piniwn i'w ddweud am y niferoedd sy'n mynychu gwasanaethau dros gyfnod y Pasg eleni? Mae'r Pasg mor bwysig i ni, Gristnogion, gan ei fod yn dangos bod marwolaeth ac atgyfodiad Iesu yn allweddol i ddeall cariad Duw a'i gynllun dros ddynoliaeth. Mae'n ddathliad sy'n rhoi gobaith i ni ac yn ein hatgoffa o rym cariad Duw. Dylai rhywun sy'n perthyn i Grist gael awydd i addoli Duw, derbyn ei air, a chymdeithasu â chredinwyr eraill, yn enwedig adeg y Pasg. Canlyniad cymysg, efallai, fydd gan y polau piniwn ynghylch presenoldeb mewn capel ac eglwys dros y Pasg, gyda mwy ohonynt yn dangos dirywiad na chynnydd, a barnu oddi wrth y blynyddoedd diweddar. Ond ni ddylem deimlo'n hollol ddigalon ychwaith os ydynt yn amlygu dirywiad. Nid yw hynny'n golygu o anghenraid fod pobl yn ymwrthod â'n neges o gariad. Yn hytrach, efallai ei bod yn amser i ni agor ein llygad i'r gwirionedd a sylweddoli bod y methiant ar ein rhan ni, yn ein heglwysi a'n capeli, i fodelu'r neges honno ar gyfer y byd cyfoes.

**R Alun Charles**

Wedi i'r erthygl hon fynd i'r wasg fe dynnodd YouGov y pôl piniwn hwn yn ôl gan ddweud nad oedd y canlyniadau yn ddibynadwy. Pwynt y mae Alun Charles yn ei wneud yn y Barn Annibynnol hwn. Gol

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Albwm a sengl i'r Pasg




Yn ystod y misoedd diwethaf y mae Undeb yr Annibynwyr wedi bod yn ddiwyd yn paratoi dau albwm o ganeuon Cristnogol Cymraeg. Fe fydd yr ail albwm, yn cynnwys caneuon gwreiddiol cyfoes gan nifer o gyfansoddwyr adnabyddus, yn cael ei rhyddhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ond mae'r cyntaf yn cael ei rhyddhau erbyn y Pasg. Cenir y caneuon gan Gôr Caerdydd o dan arweiniad Gwawr Edwards.

Dywed Gwawr, 'Dros y canrifoedd mae cerddoriaeth wedi bod yn rhan bwysig iawn o wasanaethau crefyddol gyda cherddoriaeth yn gosod naws, datgan ffydd, defosiwn a chlod, yn codi'r enaid ac yn cynnig cysur a phrofiadau ysbrydol. Mae gallu emosiynol cerddoriaeth mor bwerus ac roedd hi'n fraint i fi a Chôr Caerdydd dderbyn gwahoddiad i recordio darnau i Undeb Annibynwyr Cymru. Pan ofynnwyd i mi ddewis darnau addas ar gyfer Gŵyl ein nawddsant, Y Pasg a'r Nadolig, rhaid oedd chwilio am ddarnau Cymraeg nad oedd wedi eu recordio o'r blaen er mwyn i gynulleidfaoedd capeli a thu hwnt allu gwneud defnydd o'r darnau gan Robat Arwyn, Eric Jones, Euros Rhys Evans, Richard Vaughan a Jeff Howard. Ac roedd e'n waith pleserus gorfod chwilio am ddarnau newydd a dysgu caneuon mor hyfryd gan gyfansoddwyr o Gymru. Fe wnaethon ni ychwanegu ambell i drac arall hefyd gan obeithio y bydd pawb yn cael blas a bendith ar y gwrando.'

Mae'r caneuon ar Apple a Spotify. Chwiliwch am 'Côr Caerdydd' ac fe ddylen nhw ddod i'r golwg. Mae'r albwm cyfan (Dathlu) yn cael ei ryddhau ar 30 Mawrth, ynghyd â sengl ar gyfer y Pasg, sef trefniant arbennig Richard Vaughan o'r emyn-dôn Llwynbedw. Mae'r caneuon eraill eisoes yno fel senglau, sef Cedwch y Ffydd (Gŵyl Ddewi) gan Robat Arwyn, Gwyn Dy Fyd (Eric Jones), Yn Dawel Olau (Euros Rhys Evans) a Dos Dywed ar y Mynydd (Nadolig). Mae tair o'r wyth ar ffurf fideo y gellir eu lawrlwytho o wefan yr Undeb. Dyma gynnwys yr albwm cyfan:


1. Anthem: Cedwch y Ffydd
   Robat Arwyn
2. Gwyn dy fyd
   Eric Jones, geiriau Arwel John
3. Iesu, Iesu 'rwyt ti'n ddigon
   William Williams (Pantycelyn), J. T. Rees, Trefn. Richard Vaughan.
4. Bwrw dy faich
   Felix Mendelssohn
5. Gweddi'r Arglwydd
   Eric Jones
6. Sanctaidd
   Franz Schubert, C. C. Cairns, cyf. E. Cefni Jones
7. Dos Dywed ar y Mynydd
   Trefniant gan Jeffrey Howard
8. Yn Dawel Olau
   Euros Rhys Evans, geiriau Gwyn Thomas

# Emyn y Pasg

Boed iti'n dangnefeddus
Rin pob Shalom nos Iau,
Yn archoll Croes pob Groglith
Cei falm sy'n maddau bai;
Yng ngwacter oer y Sadwrn
Bydd gwawl yn agor pyrth
I mewn i bob yfory
Sy'n dod â'i newydd wyrth.

Yng ngrym yr atgyfodiad
Cei dithau weld ei wedd,
A theimlo'r maen yn treiglo
O'th galon ac o'r bedd;
Ymddengys iti heddiw
Ehangder gras y Nef
Fydd gyda thi'n dragywydd
Drwy wres Ei gariad Ef.

**Sian Meinir**






*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*